# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

**RHAN 6**

TROSOLWG A CHRAFFU

**PENNOD 1**

PWYLLGORAU TROSOLWG A CHRAFFU

*Rhoi sylw i safbwyntiau'r cyhoedd*

**62 Rhoi sylw i safbwyntiau'r cyhoedd**

(1) Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau o'r math y cyfeirir atynt yn is-adran (2) mewn perthynas â phob un o bwyllgorau trosolwg a chraffu'r awdurdod.

(2) Trefniadau yw'r trefniadau hynny sy'n galluogi'r holl bersonau sy'n byw neu'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol i ddwyn i sylw'r pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol eu safbwyntiau ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried gan y pwyllgor.

(3) Rhaid i bwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol, pan fydd yn arfer ei swyddogaethau, roi sylw i unrhyw safbwyntiau a gaiff eu dwyn i'w sylw yn unol â threfniadau a wneir o dan yr adran hon.

(4) Wrth gydymffurfio ag is-adran (1), rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

(5) Wrth gydymffurfio ag is-adran (3), rhaid i bwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol roi sylw i ganllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru.

(6) Yn yr adran hon—

mae i "cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu" yr ystyr sydd i *"joint overview and scrutiny committee"* yn adran 21(2A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr “mater sy'n cael ei ystyried” (“*matter under consideration*”), mewn perthynas â phwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol, yw mater y mae pwyllgor yn arfer unrhyw swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef;

ystyr “pwyllgor trosolwg a chraffu perthnasol” (*“relevant overview and scrutiny committee”*), mewn perthynas ag awdurdod lleol, yw—

(a) pwyllgor trosolwg a chraffu i'r awdurdod,

(b) is-bwyllgor i bwyllgor o'r fath,

(c) cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu i'r awdurdod, neu

(d) is-bwyllgor i gyd-bwyllgor o'r fath.